**Teitl y Swydd: Prentis Arwain Gweithgareddau Lefel 2 (Chwaraeon)**

**Math o gontract: 15 mis, llawn amser (35 awr yr wythnos)**

**Cychwyn: Medi 2022**

**Cyflog: £10,000 y flwyddyn / £5.49 yr awr**

**Lleoliadau: Ar hyd a lled Cymru**

**Amdanom ni**

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac ers 1922, wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, Celfyddydol, Preswyl, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Heddiw mae gan yr Urdd 55,000 o aelodau. Mae hyn wedi eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru.

Ar drothwy ein canmlwyddiant, dyma ddatgan ein huchelgais heriol i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith. Mae hyn yn allweddol os ydym am i'r Gymraeg fod yn ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru, a sicrhau fod pawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, yn teimlo perchnogaeth ac ymdeimlad o berthyn tuag at yr iaith a'i thraddodiadau.

**Y Swydd**

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Rheolwyr Prentisiaethau:
lisawaters@urdd.org / ffionevans@urdd.org

I ymgeisio, anfonwch Ffurflen Gais Prentisiaethau'r Urdd ar e-bost at: prentisiaeth@urdd.org

**Dyddiad Cau – 30 Mehefin 2022**

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Prentis Arwain Gweithgareddau Lefel 2** | **Lleoliadau:** | **Ar hyd a lled Cymru** |
| **Adran:** | **Chwaraeon** | **Rheolaeth Llinell:** | **Dim** |
| **Yn adrodd i :** | **Rheolwr Datblygu Chwaraeon** | **Cyflog:** | **£10,000 y flwyddyn / £5.49 yr awr** |

**Prif bwrpas y swydd:**

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Bydd angen i'r prentis arwain sesiynau wythnosol a chlybiau y tu allan i oriau dysgu
2. Creu cynlluniau sesiwn er mwyn cyd-fynd gyda thargedau'r clwb / gweithgaredd
3. Bydd angen cydweithio gyda staff yr adran ac ysgolion er mwyn annog plant a phobl ifanc ymgymryd â chyfleoedd yn ei ardal
4. Mewn rhai ardaloedd bydd angen cydweithio gyda chlybiau lleol sydd eisoes yn bodoli er mwyn annog plant a phobl ifanc i fynychu sesiynau wythnosol
5. Bydd angen cydweithio gyda gwirfoddolwyr a hyfforddwyr o fewn clybiau a digwyddiadau
6. Bydd angen cynorthwyo cynlluniau marchnata clybiau a ddigwyddiadau
7. Bydd angen gyfrannu at lwyddiant gweithgareddau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol o dan arweiniad yr adran digwyddiadau

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol**

i. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu'r gallu i deithio'n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni'r swydd hon.

ii. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon
iii. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd
iv. Rhaid i'r ymgeisydd fod yn 18 oed neu'n hŷn

**Dymunol**

vii. Bydd cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden o fantais
viii. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais
ix. Bydd profiad o hyfforddi o fantais

x. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

*I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

*Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

**Hyfforddiant**

Fel rhan o'r brentisiaeth, bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r holl hyfforddiant a gynigir.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â Fframwaith Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau.

Mae'r fframwaith yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- NVQ Lefel 2 mewn Arwain Gweithgareddau (QCF)
- Tystysgrif Lefel 2 Egwyddorion Hyfforddi
- Tystysgrif Lefel 2 Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1

Yn ogystal, darperir yr hyfforddiant ychwanegol isod:

- Cwrs Diogelu Plant
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Iechyd a Diogelwch
- Ymwybyddiaeth Cyffuriau Mewn Chwaraeon
- Ymarfer Myfyriol
- Gweithdai amrywiol eraill yn cynnwys iechyd meddwl
- Cymwysterau Chwaraeon Penodol

Mae canran fawr o'r hyfforddiant yn digwydd yn y gweithle ac o fewn gweithdai a threfnir yn ystod oriau gwaith. Er hyn, disgwylir i brentisiaid gwblhau darnau o'r gwaith cwrs y tu allan i oriau gwaith yn rheolaidd. Bydd gan bob prentis mynediad at liniadur gwaith er mwyn gwneud hynny.

Mae'r Adran Brentisiaethau yn falch iawn o allu cynnig cymorth arbennig er mwyn i bob prentis lwyddo. Er bod darnau o waith ysgrifenedig yn rhan o'r cwrs, ni ddylai hwn fod yn rhwystr i ymgeiswyr ac mae modd i ni wneud addasiadau a chynnig cymorth ychwanegol pan fo'n briodol.

Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, rhoddir hyfforddiant mewnol ar weithgareddau amrywiol yr adran gan gynnwys trefnu ac arwain gweithgareddau, cynlluniau gwyliau a chystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

| |
|---|
| Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. |
| **Hyblygrwydd:**<br><br>Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.<br><br>Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr. |
| **Adolygiad:**<br>Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2019 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad. |

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Prentis Arwain Gweithgareddau Lefel 2 |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Datblygu Chwaraeon |
| **Cyflog:** | £10,000 y flwyddyn / £5.49 yr awr |
| **Cytundeb:** | Cychwyn Medi 2022, cytundeb 15 mis |
| **Oriau gwaith:** | Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg. |
| **Lleoliadau:** | Ar hyd a lled Cymru |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus, yn ogystal â diwrnod ychwanegol ar Ddydd Gŵyl Dewi - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 3 mis |

| | |
|---|---|
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |